



Polisi a Gweithdrefn Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun

Crynodeb

Nod y Polisi hwn yw sicrhau bod Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun a wneir i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru yn bodloni deddfwriaeth statudol Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Nod.....	1
3. Termau a Diffiniadau	2
4. Polisi a Gweithdrefn	2
5. Hyfforddiant.....	11
6. Monitro	12
7. Ymgynghori	12
8. Dogfennaeth Gysylltiedig.....	12
9. Dosbarthu	12
10. Cyfnod Adolygu	13
11. Atodiadau	Error! Bookmark not defined.

1. Cyflwyniad

Mae Erthygl 15 o Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU yn rhoi hawl mynediad i destunau data i'r data personol y mae sefydliadau yn eu cadw amdanynt, yn amodol ar rai eithriadau penodol. Cyfeirir at geisiadau am fynediad at ddata personol fel Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun. Gellir gwneud cais yn ysgrifenedig (gan gynnwys drwy'r cyfryngau cymdeithasol) neu ar lafar. Os caiff ei wneud ar lafar, ni ddylid ei drin yn wahanol i gais ysgrifenedig, ond rhaid cymryd gofal ychwanegol i sicrhau hunaniaeth yr ymgeisydd ac eglurhad o'r math o wybodaeth y gofynnir amdani. Bydd rhaid rhoi Tystiolaeth Hunaniaeth i'r OPCC o hyd (gweler adran 4.3)

2. Nod



Mae'r polisi hwn yn egluro'r hawliau statudol sydd gan destunau data dros eu data a'r gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau y caiff eu hawliau eu bodloni'n gyson. Mae hefyd yn rhoi arweiniad i staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i'w helpu i ymateb i unrhyw geisiadau mewn ffordd amserol a chyson, gan gydymffurfio â deddfwriaeth.

3. **Termau a Diffiniadau**

Term	Diffiniad
Data Personol	Gellir diffinio'r term hwn fel gwybodaeth sy'n ymwneud â thestun data byw y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r data sydd ar gael, e.e. enw, cyfeiriad, cod post, nod cofrestru cerbyd, rhif adnabod fel rhif Yswiriant Gwladol neu rif y GIG, rif cyflogres neu rif coler, data lleoliad, dynodwr ar-lein (cyfeiriad IP a dynodydd cwcis), delwedd ffotograffig neu fideo. Mae hefyd yn cynnwys unrhyw farn sy'n cael ei mynegi am destun data ac unrhyw arwydd o fwriad y rheolydd data neu unrhyw un arall mewn perthynas â'r testun data hwnnw.
Prosesu data personol	Mae hyn yn cyfeirio at gaffael, cofnodi, dal neu gyflawni unrhyw weithrediad mewn unrhyw gapasiti sy'n ymwneud â data personol ac mae'n gymwys i gofnodion a wneir â llaw a chofnodion cyfrifiadurol.
Testun y data	Testun y data y mae'r wybodaeth bersonol yn ymwneud ag ef.
Rheolydd data	Unigolyn neu sefydliad sy'n penderfynu at ba ddiben, ac ym mha ffordd, y caiff data personol eu prosesu.
Prosesydd data	Unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n prosesu data ar ran y Rheolydd Data.
Tor diogelwch data	Achos o dor diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, newid, datgelu neu roi mynediad at ddata personol yn ddamweiniol neu mewn ffordd anghyfreithlon.

4. **Polisi a Gweithdrefn**

4.1 Hawliau Mynediad



4.1.1 Mae hawl mynediad, y cyfeirir ato'n aml fel Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun, yn rhoi'r hawl i destunau data gael copi o'u data personol. Mae'r wybodaeth hon yn eu helpu i ddeall sut a pham rydym yn defnyddio eu data ac i gadarnhau ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd gyfreithlon.

4.1.2 Mae gan destunau data yr hawl i gael y canlynol gan reolydd

- Cadarnhad eich bod yn prosesu eu data personol;
- Copi o'u data personol;
- Gwybodaeth atodol arall.

4.1.3 Wrth ymateb i Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun, yn ogystal â rhoi copi o'r data personol a ddelir gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau am destun y data i destun y data, bydd angen rhoi'r canlynol iddo:

- diben prosesu ei ddata;
- categorïau'r data personol dan sylw;
- y derbynwyr neu'r categorïau o dderbynwyr rydych yn datgelu'r data personol iddynt;
- y cyfnod cadw ar gyfer storio'r data personol neu, lle nad yw hyn yn bosibl, y meini prawf ar gyfer penderfynu am ba hyd y byddwch yn eu storio;
- ei hawl i ofyn i'r data gael eu cywiro, eu dileu neu eu cyfyngu neu i wrthwynebu gwaith prosesu o'r fath;
- yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth;
- gwybodaeth am ffynhonnell y data, lle na chawsant eu caffael yn uniongyrchol gan destun y data;
- y ffaith bod proses gwneud penderfyniadau awtomatig yn bodoli (gan gynnwys proffilio);
- y dulliau diogelu sydd ar waith gennych os byddwch yn trosglwyddo data personol i drydedd wlad neu sefydliad rhyngwladol.

4.1.4 Gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon yn ein Hysbysiad Preifatrwydd: <https://www.comisiynydddecymru.org.uk/polisi-preifatrwydd/> Dylai darparu dolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd yn yr ymateb fod yn ddigon i fodloni'r meini prawf uchod. Os na fydd gan destun y data fynediad i'r rhyngwlad, yna bydd yn rhaid darparu copi papur.

4.1.5 Os bydd angen unrhyw eglurhad ar destun y data neu os bydd angen rhagor o wybodaeth arno am sut y caiff ei ddata eu defnyddio, rhaid i chi gyfeirio testun y data at y Swyddog Diogelu Data.

4.2 Derbyng Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun



- 4.2.1 Mae gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun, a ddyluniwyd i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i nodi, cyfathrebu a lleoli'r data y mae testun y data yn gofyn amdanynt. Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i gwblhau'r ffurflen wrth gyflwyno cais, ond mae'n cynnig canllaw defnyddiol i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a thestunau data wrth egluro pwy yw testun y data sy'n gwneud y cais a pha wybodaeth yr hoffai ei chael.
- 4.2.2 Dylid rhoi stamp dyddiad ar unrhyw gais gan destun data sydd, yn ôl pob golwg, yn gofyn am wybodaeth/cofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol a'i anfon ymlaen at y Uwch Swyddog Sicrwydd a Chydymffurfiaeth. Yna, bydd y Uwch Swyddog Sicrwydd a Chydymffurfiaeth yn penderfynu ai Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun yw'r cais, a yw'r wybodaeth y gofynnir amdani yn glir ac a oes digon o dystiolaeth i gadarnhau hunaniaeth testun y data neu a oes angen rhagor o dystiolaeth o bosibl. Bydd y cais yn cael ei gydnabod, a gwneir cais am ragor o dystiolaeth os bydd ei hangen, a nodir dyddiad o ran pryd y gall testun y data ddisgwyl ymateb; sef un mis gan ddechrau ar y diwrnod y daw'r cais i law. Fodd bynnag, nodwch y caiff y cais ei ohirio am gyfnod os bydd angen tystiolaeth o hunaniaeth ac ni fydd yn ailddechrau hyd nes y daw'r dystiolaeth hon i law ac y caiff ei chadarnhau.
- 4.2.3 Mae'n bosibl hefyd y caiff ceisiadau am fynediad at wybodaeth bersonol eu cyflwyno i orsafoedd heddlu ledled De Cymru. Os felly, dylai Swyddog Ymholiadau'r Orsaf roi ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i destun y data (fodd bynnag, os darperir ffurflen Heddlu De Cymru, caiff hon ei derbyn hefyd). Os bydd y testun am wneud cais ar lafar, dylai Swyddog Ymholiadau'r Orsaf ddilysu hunaniaeth y testun yn unol â'r weithdrefn isod sy'n gyffredin i Heddlu De Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a sicrhau y caiff y Swyddfa honno wybod am y cais mewn modd amserol. Ar ôl cael y wybodaeth, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu fydd yn gwbl gyfrifol am ymdrin â'r cais. Fel arall, dylid darparu manylion cyswllt Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn i'r unigolyn allu gwneud cais uniongyrchol.
- 4.2.4 Ymdrinnir â cheisiadau o fewn amserlen statudol o un mis calendr. Os bydd y cais yn un cymhleth, gellir caniatáu estyniad o ddeufis arall, ar yr amod y caiff hyn ei gyfleu i'r unigolyn mewn modd amserol o fewn y mis cyntaf.

4.3 Cadarnhau manylion adnabod

- 4.3.1 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen cyflwyno dau ddull adnabod wrth gyflwyno Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun er mwyn i'r cais gael ei brosesu.



4.3.2 **Ni** ddylid gofyn am ddull adnabod os bydd hunaniaeth testun y data eisoes yn hysbys, gan y caiff hynny ei ystyried yn afresymol. Un enghraifft o'r fath yw pan fydd aelod o staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn gwneud Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun; byddai gofyn am fil cyfleustod, slip cyflog neu basbort yn afresymol, gan y bydd ei hunaniaeth eisoes yn hysbys.

4.3.3 Diben y broses cadarnhau manylion adnabod yw cadarnhau enw cywir, dyddiad geni a chyfeiriad cyfredol yr unigolyn a gallu gwirio'r llofnod ar y ffurflen/llythyr. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o wybodaeth ar Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau er mwyn bodloni ei hun o ran hunaniaeth testun y data a bydd yn rhoi gwybod iddo am y gofyniad hwnnw lle bo angen. Mae'n bwysig cadarnhau hunaniaeth yr unigolyn sy'n gwneud y cais er mwyn sicrhau mai i destun y data y caiff y data personol eu datgelu, ac nid i rywun sy'n ei ddynwared.

4.4 Gwybodaeth Ddigonol

4.4.1 Os na fydd testun y data yn darparu gwybodaeth ddigonol fel y bo'n rhesymol ofynnol i ddod o hyd i'r data personol y gofynnir amdanynt, rhaid i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau roi gwybod i destun y data bod angen rhagor o wybodaeth. Rhaid cymryd y camau hyn cyn gynted â phosibl ar ôl i gais ddod i law. O dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, byddai Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun 'am bopeth rydych yn ei ddal amdanaf' yn gyfystyr â gwybodaeth annigonol a byddai angen eglurhad pellach. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd nifer cyfyngedig o achlysuron lle gallai natur y gydberthynas rhwng testun y data a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a chyddestun y cais wneud cais o'r fath yn ddigonol.

4.4.2 Pan gaiff cais am eglurder ei anfon at destun y data, caiff saib ei roi ar y ffrâm amser ar gyfer darparu ymateb. Dim ond pan geir eglurder y caiff ei ailddechrau.

4.4.3 Pan fydd testun y data wedi gwneud cais am wybodaeth ac mai dim ond yn rhannol y delir y wybodaeth honno gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a bod y gweddill yn debygol o gael ei dal gan Heddlu De Cymru, bydd y swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn cynghori sut i ofyn am y wybodaeth weddill yn uniongyrchol gan Heddlu De Cymru.

4.5.1 Cydsyniad i Ryddhau Gwybodaeth i Drydydd Partïon

4.5.1 Gall testun y data ofyn i wybodaeth gael ei datgelu i drydydd parti sy'n gweithredu ar ei ran fel Cyfreithiwr. Diffinnir cydsyniad gan destun y data fel:



Unrhyw arwydd o ddymuniadau testun y data i gydsynio mewn ffordd barod, ddiamwys a phenodol ar sail gwybodaeth, lle mae'r unigolyn yn cytuno y gall data personol sy'n ymwneud ag ef neu hi gael eu prosesu, a hynny drwy ddatganiad neu drwy weithrediad clir a chadarnhaol.

- 4.5.2 Er mwyn hwyluso'r broses o ddatgelu gwybodaeth i drydydd parti, bydd angen i destun y data ddarparu cydsyniad amlwg a phenodol ar adeg gwneud ei gais. Bydd angen i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau gael cadarnhad o hunaniaeth testun y data o hyd.

4.6 Ceisiadau a wneir ar ran Person Ifanc

- 4.6.1 Gellir derbyn Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun gan berson ifanc lle y credir bod ganddo ddigon o allu deallusol i ddeall natur y cais. Nid oes terfyn oedran wedi'i ddiffinio yng Nghymru, ond yn yr Alban, tybir yn gyffredinol y bydd person deuddeg oed neu'n hŷn yn ddigon hen ac aeddfed i arfer hawl mynediad at ddata gan y testun. Ni ddylid ystyried bod plentyn yn gymwys os bydd yn amlwg ei fod yn gweithredu yn erbyn ei fudd pennaf.
- 4.6.2 Gall rhiant neu warcheidwad arfer yr hawl a derbyn yr ymateb, os nad oes gan y person ifanc y gallu deallusol i ddeall natur y cais **ac** yr ystyrir bod y rhiant yn gweithredu er budd pennaf y person ifanc. Rhaid i'r person sy'n prosesu'r Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun gofnodi ei benderfyniadau a'i resymeg drwy gydol y broses.
- 4.6.3 Rhaid i'r rhiant ddarparu prawf o gyfrifoldeb rhiant yn yr achosion hyn, yn ogystal â phrawf adnabod dilys ar ei gyfer ei hun. Ni chaiff unrhyw wybodaeth ei datgelu hyd nes y bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi derbyn y dogfennau sydd eu hangen i ddilysu hunaniaeth y sawl sy'n gwneud y cais a'i gyfrifoldebau fel rhiant mewn perthynas â'r plentyn dan sylw.

4.7 Dod o Hyd i Wybodaeth

- 4.7.1 Unwaith y bydd cais dilys yn dod i law Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, bydd yn cael ei gofnodi a bydd y Uwch Swyddog Sicrwydd a Chydymffurfiaeth yn cynnal chwiliad o gofnodion electronig, systemau ffeilio, cronfeydd data a chofnodion papur Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a allai gynnwys data personol testun y data. Bydd unrhyw ddata personol a gynhyrchir o'r chwiliad hwnnw, sy'n ymwneud â thestun y data, yn destun proses graffu i sicrhau bod y wybodaeth yn briodol i'w datgelu. Lle deuir o hyd i wybodaeth, ond na fydd elfennau ohoni yn addas i'w datgelu, fel gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â thestun data arall, bydd y Uwch Swyddog Sicrwydd a Chydymffurfiaeth yn sicrhau y caiff yr elfennau hynny eu hepgor mewn modd priodol. Bydd eithriadau a hepgoriadau yn cael eu cofnodi a'r rhesymeg yn cael ei nodi bob amser.



4.7.2 Pan fo'r holl wybodaeth wedi'i chanfod a'i bod yn glir bod gwybodaeth a ddelir gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi'i darparu gan reolydd data gwahanol (yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n debygol mai'r heddlu fydd hynny), yna rhaid i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau gysylltu â'r rheolydd data gwreiddiol, gan roi gwybod iddo am y cais a'r wybodaeth a gaiff ei rhyddhau o bosibl. Dylid gofyn i'r rheolydd data a ddylai unrhyw ran o'r wybodaeth a ddarparwyd ganddo gael ei heithrio ac os felly, o dan ba eithriad a dylid darparu rhesymeg. Yna, rhaid i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ystyried yr adborth hwn cyn gwneud y penderfyniad terfynol.

4.8 Datgelu Gwybodaeth

4.8.1 Caiff gwybodaeth ei datgelu naill ai ar ffurf copi caled neu drwy ddulliau electronig fel e-bost yn unol â chais testun y data. Os na chaiff unrhyw ddymuniadau penodol eu nodi ar adeg gwneud y cais, lle y bo'n bosibl, bydd yr ymateb yn cael ei ddarparu drwy'r un dull ag y cafodd y cais ei wneud. Os cafodd y cais ei wneud drwy'r cyfryngau cymdeithasol, bydd angen defnyddio dull datgelu gwahanol.

4.8.2 Bydd gwybodaeth a gaiff ei datgelu drwy e-bost ar ffurf dogfen pdf a fydd wedi ei diogelu gan gyfrinair ac yn cael ei hanfon at destun y data, i'r cyfeiriad e-bost a nodwyd yn ei gais. Lle bydd gwybodaeth a gaiff ei datgelu wedi'i diogelu gan gyfrinair, bydd y cyfrinair sydd ei angen i agor y ddogfennaeth yn cael ei anfon at destun y data. Mae hyn er mwyn diogelu testun y data yn erbyn mynediad heb awdurdod i unrhyw wybodaeth sensitif neu rhag sefyllfa lle y caiff gwybodaeth gyfrinachol ei datgelu.

4.8.3 Bydd datgeliadau copi caled yn cael eu hanfon at destun y data drwy wasanaeth 'Signed For' y Post Brenhinol. Os bydd testun y data yn gofyn am ddull arall sy'n costio'n fwy, bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn gallu codi tâl am y ffi uwch ac am gost unrhyw waith gweinyddol ychwanegol.

4.8.4 Neu, gall testun y data ddewis casglu'r wybodaeth a gaiff ei datgelu o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ym Mhencadlys yr Heddlu drwy wneud apwyntiad ymlaen llaw. Rhaid i'r apwyntiad hwn gael ei drefnu rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 9am a 4pm ar ddydd Gwener. Bydd angen i destun y data ddangos dull adnabod dilys a gwreiddiol cyn casglu'r wybodaeth a gaiff ei datgelu a gall fod angen iddo lofnodi derbynneb i ddangos bod y wybodaeth wedi cael ei chasglu.

4.9 Ffioedd



4.9.1 Ni chodir ffi am y rhan fwyaf o Geisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun. Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu yn rhad ac am ddim i unrhyw destun data sy'n gwneud Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun oni bai:

- Ei bod hi'n amlwg bod y cais yn afresymol, yn ormodol neu'n ddi-sail; a/neu
- Bod y cais yn gofyn am gopi pellach o wybodaeth sydd eisoes wedi'i datgelu.

4.9.2 Bydd ffi resymol yn cael ei chodi am y ceisiadau hynny yr ystyrir bod modd codi tâl amdanynt er mwyn talu'r gost weinyddol sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â'r cais.

4.9.3 Bydd gwybodaeth a gaiff ei datgelu mewn ymateb i Gais cychwynnol am Fynediad at Ddata gan y Testun i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ac a gaiff ei darparu drwy e-bost neu a gaiff ei chasglu'n bersonol gan destun y data, yn cael ei darparu am ddim onid ystyrir ei bod yn ormodol. Ni fydd ceisiadau unfath a wneir gan yr un ymgeisydd yn cael ymateb oni bai bod amser rhesymol wedi mynd heibio neu fod amgylchiadau rhesymol dros wneud y cais, ond mae'n bosibl y codir ffi weinyddol.

4.10 Gwrthod Cais – Eithriadau a Cheisiadaun sy'n amlwg yn Ddi-Sail/Gormodol

4.10.1 Mae'r Ddeddf yn diffinio'n glir yr eithriadau cymwys sy'n pennu'r amgylchiadau lle gall Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wrthod rhoi mynediad i ddata personol. Mae'r rhain, ynghyd â chanllawiau pellach, wedi'u rhestru'n glir ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yma: <https://cy.ico.org.uk/for-the-public/getting-copies-of-your-information-subject-access-request/why-organisations-might-partially-or-fully-refuse-a-subject-access-request/>

4.10.2 Yn ogystal â'r eithriadau, gellir gwrthod Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun hefyd os ystyrir ei fod yn 'amlwg yn ddi-sail' neu'n 'amlwg yn ormodol'.

Yn Amlwg yn Ddi-sail

4.10.3 Gall cais fod yn amlwg yn ddi-sail:

- os bydd hi'n amlwg nad oes gan destun y data unrhyw fwriad i arfer ei hawl mynediad. Er enghraifft, bydd testun y data yn gwneud cais, ond yna'n cynnig ei dynnu'n ôl yn gyfnewid am ryw fath o fudd gan y sefydliad; neu
- os bydd bwriad maleisus i'r cais a'i fod yn cael ei ddefnyddio i aflonyddu sefydliad heb unrhyw ddiben go iawn heblaw amharu ar y sefydliad hwnnw. Er enghraifft, bydd testun y data:



- yn nodi'n amlwg, yn y cais ei hun neu mewn gohebiaeth arall, ei fod yn bwriadu amharu ar y sefydliad;
- yn gwneud cyhuddiadau di-sail yn eich erbyn chi neu yn erbyn cyfloggeion penodol y mae'n amlwg eu bod yn cael eu cymell gan falais;
- yn targedu cyflogai penodol y mae'n dal rhyw ddig personol yn ei erbyn; neu
- yn anfon ceisiadau gwahanol mewn modd systematig atoch fel rhan o ymgyrch, e.e. unwaith yr wythnos, gyda'r bwriad o amharu.

4.10.4 Rhaid ystyried cais yn y cyd-destun y caiff ei wneud. Os bydd testun y data o ddifrif am arfer ei hawliau, mae'n annhebygol y gallai'r cais gael ei ystyried fel un sy'n amlwg yn ddi-sail.

Yn Amlwg yn Ormodol

4.10.5 Er mwyn cadarnhau a allai cais gael ei ystyried yn un sy'n amlwg yn ormodol, bydd angen ystyried a yw'n glir neu'n amlwg ei fod yn afresymol. Dylai hyn fod yn seiliedig ar a yw'r cais yn gymesur o'i ystyried yn erbyn y baich neu'r costau sy'n gysylltiedig ag ymdrin â'r ceisiadau.

4.10.6 Bydd hyn yn golygu ystyried holl amgylchiadau'r cais, gan gynnwys:

- natur y wybodaeth y gofynnwyd amdani;
- cyd-destun y cais a'r gydberthynas â thestun y data;
- a all gwrthod darparu'r wybodaeth neu hyd yn oed gydnabod eich bod yn dal y wybodaeth beri niwed sylweddol i destun y data;
- yr adnoddau sydd ar gael;
- a yw'r cais yn ailadrodd ceisiadau blaenorol i raddau helaeth ac nad oes amser rhesymol wedi mynd heibio; neu
- a yw'n gorgyffwrdd â cheisiadau eraill (ond os yw'n ymwneud â set o wybodaeth sy'n gwbl ar wahân, mae'n annhebygol o fod yn ormodol).

4.10.7 Nid yw cais o reidrwydd yn ormodol dim ond am fod testun y data yn gofyn am swm sylweddol o wybodaeth.

4.10.8 Dylid hefyd ystyried gofyn i destun y data am ragor o wybodaeth i helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth y mae am ei chael ac ystyried a ellir gwneud chwiliadau rhesymol am y wybodaeth.

4.10.9 Mae'n bwysig ystyried pob cais yn unigol ac i gofnodi cyfiawnhad clir o ran pam y gwnaed penderfyniad i ddefnyddio eithriad neu i drin y cais fel un sy'n amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol. Rhaid darparu esboniad i destun y data hefyd yn nodi pam y penderfynwyd peidio â darparu'r data ac yn esbonio'r eithriad perthnasol, oni bai y byddai gwneud hynny yn datgelu gwybodaeth a fyddai'n ddarostyngedig i'r eithriad. Bydd cofnod o'r wybodaeth hon hefyd yn



cael ei chofnodi a'i chadw gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau mewn cofrestr eithriadau.

4.11 Ymateb i Geisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun

4.11.1 Pan fydd y wybodaeth a goladwyd ar fformat diogel a darllenadwy, bydd yr Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth yn adolygu'r hepgoriadau, y golygiadau, yr eithriadau a'r wybodaeth gyffredinol ac yn cymeradwyo neu'n gwrthod y datgeliad. Lle caiff y datgeliad ei olygu neu ei wrthod, bydd y Uwch Swyddog Sicrwydd a Chydymffurfiaeth yn cwblhau unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol ac yn sicrhau y caiff cyswllt ei gynnal â thestun y data er mwyn rheoli disgwyliadau. Drwy gydol y broses, bydd penderfyniadau a wneir gan staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn cael eu cofnodi a'u cyfiawnhau pan fo angen.

4.11.2 Wrth ddychwelyd gwybodaeth mewn perthynas â'r Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun, bydd testun y data neu drydydd parti yn cael gwybod am ei hawl i gywiro ac i gyfyngu ar y gwaith golygu ac am y cyfle i gwyno, i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i ddechrau, ac os bydd yn parhau i fod yn anfodlon, i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

4.12 Gwneud Cwyn

4.12.1 Lle bydd testun y data neu ei drydydd parti yn gwneud cwyn am y ffordd y mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi ymdrin â Chais am Fynediad at Ddata gan y Testun, bydd y Uwch Swyddog Sicrwydd a Chydymffurfiaeth yn cael gwybod er mwyn gallu cynnal cofnodion. Bydd y Prif Weithredwr yn cynnal adolygiad o'r prosesau a ddilynwyd ac yn sicrhau y caiff y Swyddog Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth ei hysbysu am gynnydd yr adolygiad. Bydd y Swyddog Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth yn sicrhau bod yr achwynydd yn cael dyddiad realistig a rhesymol o ran pryd y gall ddisgwyl clywed gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau mewn perthynas â'i gŵyn.

4.12.2 Bydd testun y data yn cael gwybod am ganlyniad ei gŵyn yn ysgrifenedig. Bydd y gŵyn hefyd yn cynnwys manylion hawl testun y data i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

4.13 Cywiro Data Anghyflawn neu Anghywir

4.13.1 Ar ôl cael ei wybodaeth, mae'n bosibl y bydd testun y data yn sylwi fod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi bod yn dal data anghyflawn neu anghywir amdano. O dan y Ddeddf, gall geisio cywiro hyn. Mae testun y data yn debygol o hysbysu'r S Uwch Swyddog Sicrwydd a Chydymffurfiaeth a ddylai, i ddechrau, gadarnhau gyda thestun y data a yw'n



awyddus i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau roi'r gorau i brosesu'r wybodaeth bersonol yn ei chyflwr presennol. Os felly, rhaid i'r Uwch Swyddog Sicrwydd a Chydymffurfiaeth ofyn am gyngor y Swyddog Diogelu Data a hysbysu'r Prif Weithredwr a fydd yn penderfynu a yw'n ymarferol, yn rhesymol ac yn gyfiawn cyfyngu ar y gwaith prosesu. Os penderfynir gwneud hynny, yna bydd y Swyddog Gweithredol yn cysylltu â pherchnogion y wybodaeth ac yn cyfyngu ar y gwaith prosesu.

- 4.13.2 Er mwyn sicrhau bod data Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn gywir ac yn gyfredol, rhaid i'r Uwch Swyddog Sicrwydd a Chydymffurfiaeth ofyn am y wybodaeth gywir gan destun y data a lle bo angen, prawf bod y wybodaeth newydd a ddarperir ganddo yn gywir. Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar destun y data i ddarparu gwybodaeth newydd ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau gyfyngu ar y gwaith prosesu ac ystyried dileu'r wybodaeth.

4.14 Yr Hawl i Ddileu Data

- 4.14.1 Mae 'hawl unigolyn i gael ei anghofio' wedi'i chysylltu'n annatod â'r cyfyngiad ar brosesu, ac mae'n bosibl y bydd un yn dilyn y llall. Lle mae testun y data wedi cael ymateb i'w Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun a'i fod wedi nodi bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn dal gwybodaeth amdano, gall wneud cais i'r Swyddfa ddileu'r data hynny.

- 4.14.2 Lle daw cais i law, rhaid i'r Prif Weithredwr benderfynu a yw'n ymarferol ac yn gyfiawn cyfyngu ar y gwaith o brosesu gwybodaeth bersonol ai peidio wrth i benderfyniad gael ei wneud o ran a ddylid dileu'r data hynny. Bydd yr Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth yn cysylltu â pherchnogion gwybodaeth ac yn sicrhau bod cyfyngiad ar brosesu ar waith am y cyfnod a bennir gan y Prif Weithredwr. Drwy gydol y broses, bydd yr Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth a'r Prif Weithredwr yn dogfennu eu penderfyniadau a'u rhesymeg er mwyn i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau allu darparu gwybodaeth i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn modd amserol.

4.15 Cadw

- 4.15.1 Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn dal copi o'r ymateb gorffenedig am ddwy flynedd o ddyddiad cau'r cais, yn unol â'i hamserlen gadw.

5. Hyfforddiant

- 5.1 Mae angen i'r Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth a Uwch Swyddog Sicrwydd a Chydymffurfiaeth Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau



gael hyfforddiant penodol o ran ymdrin â Cheisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun.

6. Monitro

- 6.1 Yr Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth fydd yn gyfrifol am fonitro'r ddogfen hon. Bydd y ddogfen yn cael ei diweddarau pan fydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gwneud newidiadau i'r canllawiau.

7. Ymgynghori

- 7.1 Caiff y polisi hwn ei ddefnyddio gan bob Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru. Drafftwyd y ddogfen gan swyddfa Gwent ac ymgynghorwyd â phob Swyddog Diogelu Data yn y tair swyddfa arall, ynghyd â'r pedwar Prif Weithredwr.

8. Dogfennaeth Gysylltiedig

- 8.1 Mae Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU yn disodli cyfarwydddeb a Deddf flaenorol yr UE ac mae'n rhoi hawliau a rheolaeth ddiffiniedig dros ddata personol i destunau data, gyda mwy o gosbau i sefydliadau os byddant yn methu â chydymffurfio. Mae'r Rheoliadau yn berthnasol i'r gwaith o brosesu unrhyw wybodaeth bersonol, p'un a gaiff ei phrosesu ar gyfrifiadur, teledu cylch cyfyng, cofnodion ffeilio â llaw, yn ddigidol neu drwy unrhyw fath arall o gyfrwng. Nid yw'r GDPR yn gymwys i brosesu data personol at ddibenion penodol gorfodi'r gyfraith.
- 8.2 Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn ategu'r GDPR. Mae'n rhoi manylion eithriadau lle nad yw darpariaethau GDPR yn gymwys, yn diffinio pwerau'r Comisiynydd Gwybodaeth ac yn egluro rhai o'r termau a ddefnyddiwyd yn y GDPR. Mae'r Ddeddf hefyd yn diffinio'r amgylchiadau a'r sail gyfreithiol y gall Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau brosesu data gorfodi'r gyfraith oddi tanynt.

9. Dosbarthu

- 9.1 Rhaid sicrhau bod pob aelod o staff sy'n gweithio yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun yn sgil natur y rolau a gyflawnir. Gall unrhyw un wneud Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun unrhyw bryd, mewn unrhyw fformat a rhaid i staff allu adnabod cais o'r fath a rhoi cymorth ar y camau nesaf. Felly, caiff y polisi hwn ei ddosbarthu i bob aelod o staff yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.



10. Cyfnod Adolygu

- 10.1 Bydd y ddogfen yn cael ei hadolygu bob pedair blynedd i sicrhau ei bod yn parhau'n gywir.